We know that offshore wind projects bring significant benefits to their local communities and we think it's incredibly important the local supply chain contributes to this project too. We have launched a dedicated supplier portal where local companies can pair their skills with the projects' needs. The portal provides access for companies of all sizes to register their interest for future work. The project is encouraging UK-based suppliers to register their interest at [\[redacted\]](#) particularly those with connections across North Wales and the North West of England.





## Commercial fisheries, shipping and navigation

We have conducted a range of assessments within our study area to see how our proposed wind farm site could impact commercial fisheries, shipping and navigation.

Below we've provided an overview of the results of these assessments. More detailed information about the assessments carried out and the subsequent results can be found in chapter 11 of our PEIR.

### Commercial fisheries

During the operation and maintenance phase of the Mona Offshore Wind Project, our assessments found a range of potential effects to commercial fisheries with the majority found to be 'minor adverse' or lower and 'not significant'.

The project will continue to engage with stakeholders in the region related to commercial fisheries and explore how the Mona Offshore Wind Project can minimise any potential impacts further.

### Shipping and navigation

A shipping and navigation baseline was developed through a review of relevant publications, collection and analysis of historical vessel traffic and incident data, and consultation with key stakeholders. The Mona Offshore Wind Project is located in an area frequently utilised by a variety of different maritime users.

Some potential impacts on shipping and navigation, associated with the construction, operations and maintenance, and decommissioning phases of the Mona Offshore Wind Project, were identified.

The impacts assessed include: impacts to vessel routing, impacts to port operations, impacts to navigational safety and impacts to emergency response. With the measures adopted as part of the Mona Offshore Wind Project (e.g. guard vessels) in place, the majority of these impacts result in effects which are deemed, in planning terms, 'not significant'.

Where more 'significant' risks are identified, we are committed to exploring additional risk controls through further studies and engagement with stakeholders to ensure they are appropriate and adequate for reducing risks to 'as low as reasonably practicable' (ALARP) prior to submission of the application. Appropriate risk controls will then be secured through project consents.





## Proposed changes

The Planning Inspectorate, on behalf of the Secretary of State, accepted the application for the Mona Offshore Wind Project on Thursday 21 March 2024 and the Project entered its Examination phase.

Throughout the Examination, we have continued to refine our proposals and this has resulted in the need for changes to the Project's order limits. In particular, these changes relate to highway accesses following ongoing engagement with the local highway authority, landowners and the wider supply chain.

In summary, the proposed changes are:

1. The amendment of the proposed Order Limits to include an existing access track and parcel of land to the west of the onshore substation for temporary construction access during onshore site preparation works and construction of the onshore substation and surrounding works;
2. The amendment and widening of the onshore substation construction access road to aid Abnormal Indivisible Load (AIL) movements, including an amendment to the proposed Order Limits;
3. The amendment of the proposed Order Limits to include additional land adjacent to the onshore substation construction access bellmouth to accommodate a temporary construction drainage attenuation basin;
4. The amendment and widening of the proposed Order Limits to include an area of land to accommodate an area of hardstanding during the construction period to allow establishment of the permanent access road.

[These can be viewed here](#)

More information on these changes can be found in the [Notification of Intention to Submit a Change Request Application](#) on the Planning Inspectorate website.

A copy of the notice publicising consultation on these changes can be viewed [here](#).

### How to respond


We welcome comments on these proposed changes as part of a consultation running from Tuesday 19 November to 5pm on Tuesday 03 December 2024. You can submit feedback using the following methods:

- Email: [\[redacted\]](#)
- Post: FREEPOST MONA

This consultation closes at 6pm on Tuesday 03 December 2024 so please ensure that responses are submitted on or before this date and, if using the freepost option, leave time for your response to arrive.

To access supporting documentation relating to this consultation, please [click below](#)

[View documents](#)




## News and documents

On this page you can view and download a selection of materials that provide more information about the Mona Offshore Wind Project.

Should you require any of these materials in a more accessible format, please contact the project team by emailing [\[redacted\]](#)

### Change Request

[Change request](#) 

### Examination

[Examination](#) 

### Acceptance

[Acceptance](#) 

### Application

All application documents are available on the Planning Inspectorate's website.

[Planning Inspectorate's website](#)


### Post consultation announcement materials


[Post consultation announcement materials](#) 


### Statutory consultation materials


[Plans and Drawings](#) 


[Development Consent Order](#) 

[Reports](#) 


[Outline Plans](#) 

[PEIR Volume 1: Introductory Chapters](#) 


[PEIR Volume 2: Offshore Chapters](#) 


[PEIR Volume 3: Onshore Chapters](#) 


[PEIR Volume 4: Onshore and Offshore Chapters](#) 


[PEIR Volume 5: Introductory Annexes](#) 

[PEIR Volume 6: Offshore Annexes](#) 

[PEIR Volume 7: Onshore Annexes](#) 

[PEIR Volume 8: Offshore and Onshore Combined Annexes](#) 

[PEIR: Non-Technical Summary](#) 

[Statutory consultation materials](#) 

### Non-Statutory consultation materials

[Non-Statutory consultation materials](#) 

Our application for development consent has been accepted for examination. To view the application documents please click [here](#). To view a notice publicising the dates and times of examination hearings please click [here](#).


[Home](#)



[Home](#) [Offshore wind](#) [Proposals](#) [Proposed changes](#) [News and documents](#) [Visualisations](#) [Contact us](#)

[English](#) [Cymraeg](#)


The size, number and positioning of our turbines have yet to be decided. But at this early stage we've created indicative 3D visualisations to show potential views of the Mona wind farm from a range of onshore locations. Click on the arrows to see videos that show views during both the day and night. We are showing cloudy skies as these give the clearest contrast for the wind turbines.



POWERED BY **Camargue**

Keyboard shortcuts Map data ©2024 Google Terms Report a map error





## Register for updates

Please register your details with us if you would like to be kept informed about our project.

Name

Email

Phone

Are you responding on behalf of an organisation?

Yes  No

Organisation

Please indicate your area(s) of interest:

Project progress

Community updates

I'm not a robot



To submit this form, [the use of cookies must be accepted](#). This is necessary to enable the user to complete a human-only response from a reCAPTCHA.

Submit

## Contact us

You can contact the community relations team by:



Post: FREEPOST MONA

## Planning updates

To sign up to planning updates, please input your details on the Planning Inspectorate's website.

[Planning Inspectorate's website](#)



## Croeso

Mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn falch o gyhoeddi ei ail gylchlythyr diweddarar Prosiect, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Prosiect. Cliciwch ar y ddolen isod i ddarganfod mwy.

Y tu mewn iddo fe welwch wybodaeth am ein penderfyniad i leihau ardal ddatblygu safle'r fferm wynt er mwyn lliniaru effeithiau ar ddefnyddwyr morol eraill ymhellach, a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl parthed camau nesaf datblygiad y Prosiect.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cylchlythyr hwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gweld y diweddariad

Fferm wynt ar y môr arfaethedig yn nwyrain Môr Iwerddon yw Prosiect Gwynt Alltraeth Mona. Mona Offshore Wind Ltd sy'n datblygu'r prosiect, ac mae'n fenter ar y cyd rhwng bp ac Energie Baden-Württemberg AG (EnBW).

Mae prosiect Mona yn cynnwys elfennau ar y môr i gynhyrchu trydan ac elfennau ar y môr ac ar y tir i allu trawsyrru'r trydan a fydd yn cael ei gynhyrchu i'r grid cenedlaethol:

- Generaduron tyrbinau gwynt (hyd at 107 tyrbîn)
- Plattform(au) is-orsaf ar y môr
- Ceblau rhyng-gysylltu ar y môr, ceblau rhyng-arâe a cheblau allforio
- Pwrth cysylltu trosiannol (yn cysylltu'r ceblau ar y môr a'r ceblau ar y tir)
- Ceblau ar y tir
- Is-orsaf ar y tir
- Cysylltu ag is-orsaf bresennol y National Grid ym Modelwyddan

Mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn cael ei ystyried yn Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu bod angen gorchymyn cydsyniad datblygu (DCO) gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i derfynau'r gorchymyn rhwng dydd Mawrth 19 Tachwedd a 5pm dydd Mawrth 03 Rhagfyr 2024. Cliciwch yma er mwyn cael mynediad at ddogfennau yr ymgynghoriad yma.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth

## Cofrestrwch i gael diweddariadau

Cofrestrwch eich manylion gyda ni os hoffech gael gwybod am ein prosiect.

cofrestrwch yma

## Pwy yw EnBW a bp?

Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyflwyno fel menter ar y cyd rhwng bp ac Energie Baden-Württemberg AG (EnBW).

### Ynglŷn â bp

Mae bp wedi nodi uchelgais i fod yn gwmni sero-net erbyn 2050 neu'n gynt, a helpu'r byd i gyrraedd sero net. Mae bp wedi nodi strategaeth ar gyfer cyflawni'r uchelgais hwn. Mae bp yn canolbwyntio ar gyflawni ei drawsnewid yn gwmni ynni integredig, gan helpu i ddarparu'r ynni sydd ei angen ar y byd heddiw, a buddsoddi yn y trawsnewid ynni.

Yn mis Ionawr 2021, cytunodd bp a Equinor i ddatblygu dwy brif ardal byrdles gyda'i gilydd sydd wedi'u lleoli mewn dyfroedd fferdal oddi ar Efrog Newydd a Massachusetts, Empire Wind a Beacon Wind. Yn mis Ionawr 2024, cyhoeddodd bp a Equinor y bydd bp yn cymryd perchnoagaeth o gyfran 50% Equinor ym mhrosiectau gwynt alltraeth Beacon Wind US a bydd Equinor yn cymryd perchnoagaeth o gyfran 50% bp ym mhrosiectau gwynt alltraeth Empire Wind UD. Yn amodol ar gau'r trafodiad, bydd bp yn gweithio'n annibynnol i ddatblygu Beacon 1 a Beacon 2 ar sail sy'n eiddo llwyr. Mae Beacon Wind 1 a 2 yn cynnwys cynhyrwydd cynhyrchiol posibl cyfunol sy'n fwy na 2.5 GW. Yn y DU, mae bp a'i bartner EnBW yn arwain y gwaith o ddatblygu prosiectau gwynt alltraeth Morgan a Mona ym Môr Iwerddon a phrosiect gwynt alltraeth Morven ym Môr y Gogledd. Mae gan y prosiectau hyn gapasiti cynhyrchu posibl cyfunol o 5.9 GW, sy'n ddigon i bweru cyfwerth â thua 6 miliwn o aelwydydd yn y DU. Yn gynnar yn 2023, llwyddodd bp i ddatblygu ei brosiect arddangos gwynt alltraeth arnofio cyntaf yn Swydd Aberdeen.

Yn mis Gorffennaf 2023, llwyddodd bp i wneud cais am ddau safle ar y môr yn yr Almaen gyda chapasiti cynhyrchu posibl o 4 GW. Mae bp wedi ffurfio partneriaeth strategol gyda conglomerate Japaneidd Marubeni i archwilio cyfleoedd gwynt ar y môr yn Japan. Mae bp hefyd wedi ffurfio JV gyda Deep Wind Offshore o Norwy, a gwelodd rhan ohono bp yn caffael cyfran o 55% ym mhorthfolio gwynt alltraeth camau cynnar y cwmni, sy'n cynnwys pedwar prosiect ar draws penrhyn Corea.

Mae gan bp fusnes gwynt ar y tir yn yr Unol Daleithiau eisoes gyda chapasiti cynhyrchu gros o 1,700 MW, gan weithredu naw ased gwynt ledled y wlad. Ar 30 Tachwedd 2023, cyhoeddodd bp ei fod yn cytuno i gaffael y 50.03% nad yw eisoes yn berchen arno yn bp Lightsource, arweinydd byd-eang mewn datblygu storio solar ac ynni ar raddfa cyfleustodau, sy'n golygu y bydd bp yn cymryd perchnoagaeth lawn o bp Lightsource ar ôl cwblhau'r trafodiad.

### Ynglŷn â EnBW

Energie Baden-Wuerttemberg AG (EnBW) yw un o'r cwmnïau cyflenwi ynni mwyaf yn yr Almaen ac mae'n cyflenwi trydan, nwy, dŵr ac atebion ynni a gwasnaethau i oddeutu 5.5 miliwn o gwsmeriaid gyda gweithlu o fwy na 27,000 o weithwyr.

Nod EnBW yw cryfhau ei safle fel partner seilwaith cynaliadwy ac arloesol ar gyfer cwsmeriaid, dinasdyddion ac awdurdodau lleol hyd ymhellach. Mae ail-heoli EnBW gyda'i ffocws ar ynni adnewyddadwy ac atebion seilwaith craff yn elfen allweddol o'i strategaeth. Gyda ffocws ar ynni adnewyddadwy ac atebion seilwaith craff, amcan EnBW yw sicrhau fod hanner y trydan y mae'n ei gyflenwi o ffynonellau adnewyddadwy erbyn diwedd 2025. Mae hyn eisoes yn cael effaith amlwg ar leihau allyriadau CO<sub>2</sub>, y mae EnBW yn anelu at haneru erbyn 2030 a bod yn niwtral yn yr hinsawdd erbyn 2035.

Mae EnBW wedi bod yn ymwneud â gweithredu gweithfeydd pŵer hydro yn y Goedwig Ddu ers dros 100 mlynedd ac mae ganddo nifer fawr o ffermydd gwynt ar y tir a ffotofoltaig solar yn yr Almaen, Ffrainc a Sweden. Yn ogystal, bu i EnBW ddatblygu, adeiladu a gweithredu pedair fferm wynt ar y môr yn yr Almaen (EnBW Baltic 1, Baltig 2, Hohe See ac Albatros) gyda chyfanswm capasiti wedi'i osod o 945 MW, a gomisiynydd rhwng 2011 a 2020. Ar hyn o bryd mae fferm wynt 900 MW arall ar y môr, He Dreht, yn cael ei datblygu yn yr Almaen.



## Pam mae angen ynni gwynt ar y môr arnom

Newid hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae'n effeithio ar bob gwlad ac mae'n rhaid i ni i gyd chwarae rhan wrth helpu i'w frwydro.

Gall y prosiect hwn chwarae rhan yn y gwaith o fynd i'r afael â thrawsnewid ynni drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy i gefnogi targedau Llywodraeth Cymru a'r DU.

Mae'r DU yn arweinydd byd mewn gwynt ar y môr ac mae'r moroedd o'n cwmpas yn ddelfrydol ar gyfer manteisio ar bŵer gwynt. Bydd ein prosiect yn weithredol erbyn 2030 a bydd yn chwarae rhan mewn trawsnewid ynni drwy'r canlynol:

- Cynhyrchu trydan carbon isel o fferm wynt ar y môr i gefnogi datgarboneiddio a diogelwch cyflenwad trydan Cymru a'r DU.
- Manteisio i'r eithaf ar y capasiti cynhyrchu o fewn cyfyngiadau'r safleoedd a'r seilwaith grid sydd ar gael.
- Cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n cyfateb i 70 y cant o ddefnydd Cymru erbyn 2030, fel y nodir yn y Cynllun Strategol Sero Net.
- Darparu swm sylweddol o ynni gwynt ar y môr i gefnogi targed Sero Net Llywodraeth y DU erbyn 2050 a'r ymrwymiad i ddarparu hyd at 50 gigawat (GW) o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030.
- Cydfodoli a chydweithio â gweithgareddau, datblygwyr a gweithredwyr eraill er mwyn gallu cael cydbwysedd rhwng gwahanol ddefnyddwyr.

### Bydd y prosiect hwn hefyd yn:

- Cyfrannu at gyflawni nodau Strategaeth Diogelwch Ynni'r DU.
- Cyfrannu at yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol drwy fuddsoddi'n sylweddol, yn ogystal â chynig cyfleoedd cyflogaeth a seilwaith newydd yn ystod pob cam o'r prosiect.
- Parhau i gadw costau technoleg a datblygu i lawr er mwyn darparu ynni cost isel i ddefnyddwyr a darparu manteision cymunedol.
- Cyd-fynd â'r prif ffactorau sy'n sbarduno diweddariadau i bolisiau cenedlaethol yng Nghymru a'r DU sy'n digwydd ar hyn o bryd ac sydd ar y gweill.

Mae'r DU eisoes yn cynhyrchu tua 13GW o'i phŵer o ynni gwynt ar y môr. Mae'n chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein cymysgedd ynni. Er enghraifft, am gyfnod ar 29 Ionawr 2022 roedd gwynt ar y môr yn darparu 66% o gyfanswm ein cynnyrch ynni.

Ond mae angen i ni wneud llawer iawn mwy. Er mwyn cyflawni nodau hinsawdd y DU, mae angen i ni gynyddu faint o ynni gwynt ar y môr rydym yn ei gynhyrchu bedair gwaith – sy'n golygu bod angen i ni osod a gweithredu capasiti hyd at 50GW erbyn 2030.





## Beth yw generaduron tyrbinau gwynt?

Dyfeisiau yw'r rhain sy'n trosi egni cinetig gwynt yn egni trydanol. I gael rhagor o wybodaeth am ddyuniad tebygol y generaduron tyrbinau gwynt ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, edrychwch ar Gyfrol 1 – Rhagarweiniad, pennod 3 (Disgrifiad o'r Prosiect) yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol.





Diagram dangosol o sut y gallai generadur tyrbinau gwynt nodweddiadol edrych. Gall y dyluniad gwirioneddol fod yn wahanol.

## Beth yw Platformau Is-Orsaf ar y Môr (OSPs)?

Strwythurau sefydlog yw'r rhain a fyddai'n cael eu lleoli ar safle'r fferm wynt. Pwrpas y strwythurau hyn yw trosi'r pŵer o'r generaduron tyrbinau gwynt yn ffurf sy'n barod i'w throsglwyddo i'r lan.



Delwedd ddangosol yn dangos platform is-orsaf ar y môr nodweddiadol. Gall y dyluniad gwirioneddol fod yn wahanol.

## Beth yw ceblau cyswllt y plattform?

Mae'r rhain yn geblau trydanol sy'n cysylltu un neu fwy o blattfformau is-orsaf ar y môr.

## Beth yw ceblau rhyng-arâe?

Ceblau yw'r rhain sy'n cysylltu generaduron y tyrbinau gwynt â'i gilydd ac â'r plattfformau is-orsaf ar y môr.

## Beth yw ceblau allforio o'r môr?

Ceblau yw'r rhain sy'n trosglwyddo trydan o'r plattfformau is-orsaf ar y môr i'r lan.

## Delweddau

Mae'r PEIR yn cynnwys cyfres o ddiagramau delweddau sy'n dangos sut y gallai'r fferm wynt edrych o wahanol fannau. Gallwch ddod o hyd iddynt yn y bennod Morlun, Tirlun ac Effaith Weledol (SLVIA).

Volume 2, Chapter 8: Seascape and visual resources

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 1 (Figures 1.1 - 9.3)

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 2 (Figures 9.4 - 17.1)

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 3 (Figures 18.1 - 27.2)

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 4 (Figures 28.1 - 32.2)

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 5 (Figures 33.1 - 38.3)

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 6 (Figures 38.4 - 46.2)

Volume 6, Annex 8.6: Seascape visualisations Part 7 (Figures 47- 56)

## Ein cynigion

Bydd Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn cael ei leoli'n gyfangwbl o fewn dyfroedd Cymru yn nwyrain Môr Iwerddon, 28.8km o arfordir Cymru, 46.5km o arfordir gogledd-orllewin Lloegr, a 46.1km o Ynys Manaw.

Mae glanfâ'r prosiect ger Llanddulas, Conwy ar arfordir Gogledd Cymru a bydd yn cysylltu ag is-orsaf bresennol y National Grid ym Modelwyddan, Sir Ddinbych.

Bydd y fferm wynt yn cynnwys hyd at 107 o dyrbinau gwynt, a fydd yn cynhyrchu oddeutu 1.5GW o drydan.

Mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn falch o gyhoeddi ei ail gylchlythyr diweddarau Prosiect, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Prosiect. Cliciwch ar y ddolen isod i ddarganfod mwy.

Y tu mewn iddo fe welwch wybodaeth am ein penderfyniad i leihau ardal ddatblygu safle'r fferm wynt er mwyn lliniaru effeithiau ar ddefnyddwyr morol eraill ymhellach, a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl parthed camau nesaf datblygiad y Prosiect

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cylchlythyr hwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect yn gyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gweld y diweddariad

## Is-orsaf ar y Tir

Mae'r adborth rydyn ni wedi'i gael yn ystod ein tri cham o ymgynghoriadau â chymunedau a rhanddeiliaid wedi ein helpu i freinio llawer o agweddau ar ein cynigion. Erbyn hyn, rydyn ni'n gweithio tuag at gyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar gyfer y prosiect yn 2024.

Ar ôl casglu'r holl adborth a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, mae tîm prosiect Mona wedi adolygu'r ymatebion amgylcheddol, cydsyniol, dichonoldeb peirianeg, y tir a chymunedol. Mae'r tîm hefyd wedi adolygu'r rhain yn erbyn y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn ein Hadroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol, a oedd yn destun ein hymgynghoriad diweddaraf, a oedd yn un statudol.

O ganlyniad i'n hymgynghoriad statudol, mae tîm Prosiect Gwynt Alltraeth Mona wedi gallu dewis un lleoliad ar gyfer is-orsaf ar y tir at ddiibenion y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu sydd ar ddod. Rydyn ni hefyd wedi dewis un llwybr ceblau ar y tir o'r opsiynau a gafodd eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad anstatudol yn 2022 lle cyflwynwyd saith opsiwn is-orsaf ar y tir ar gyfer adborth. Roedd tîm y prosiect wedyn yn gallu llunio rhestr fer o ddau opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt yn yr ymgynghoriad statudol.


Ar ôl ystyried yr ymgynghoriad hwnnw a'r adborth a gafwyd, rydyn ni wedi dewis opsiwn dau fel yr un y byddwn yn ei gynnwys o fewn ein cais am Gydsyniad Datblygu. Ni fydd opsiwn saith, a oedd i'r dwyrain o opsiwn dau, yn symud ymlaen ar ôl cael ei ddadethol.

Rydyn ni hefyd wedi dewis llwybr unigol ein cebl ar y tir. Byddwn ni'n siarad â thirfeddianwyr dros y misoedd nesaf, er mwyn i ni allu parhau i freinio ein corridor cebl i un sydd tua 75m o led.

Mae'r map hwn yn dangos y newidiadau hyn.



Bydd rhagor o fanylion y tu ôl i ddevis yr is-orsaf ar y tir a'r llwybr ceblau a ffefirir yn cael eu rhoi yn yr adroddiad ar Ddewis Safle ac Ystyried Opsiynau Eraill. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol a fydd yn cyd-fynd â'n cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu a flwyddyn nesaf.



## Adeiladu

Bydd y gwaith o adeiladu'r prosiect yn cynnwys technegau peirianeg manwl ac arbenigol. Amlinellir y prif egwyddorion isod.

### Tyrbinau gwynt

Rydym yn cynnig defnyddio generaduron tyrbinau gwynt â thri llafn arnyn nhw. Bydd y rhain yn cynnwys yr effennau canlynol:

- Rotorau, gan gynnwys llafnau a both (yn cysylltu'r llafnau â'r siafft a'r system gyriant).
- Nasél, sy'n dal y generadur trydan, yr electroneg rheoli a'r system gyriant.
- Cefnogaeth strwythurol, sy'n cynnwys tîr tiwb dur ar ben strwythur sylfaen.

### Cynllun a dyluniad y fferm wynt

Mae union gynllun y generaduron tyrbinau gwynt yn dal i gael ei ddatblygu ac ni fydd yn cael ei gwblhau'n derfynol nes bydd yr Ysgrifennydd Gwladol Dros Ddogelwch Ynni a Sero Net wedi rhoi caniatâd i'r prosiect.

Bydd generaduron tyrbinau gwynt yn cael eu gosod mewn rhesi a bydd y rhain yn cael eu gosod yn fras o'r gogledd i'r de. Bydd bwlch o 1400 metr o leiaf rhwng pob generadur tyrbinau gwynt unigol mewn rhes a rhwng pob rhes o eneraduron tyrbinau gwynt.

Er mwyn hyrwyddo cydfodolaeth â gweithgareddau pysgota, rydym yn ymrwymo i gynnal ardal a fydd yn rhydd o dyrbinau gwynt a llwyfannau is-orsafodd alltraeth.

### Cysylltu rhwng y môr a'r tir – Pyrth Cysylltu Trosiannol

Bydd y ceblau allforio o'r môr yn cysylltu â'r ceblau allforio ar y tir mewn hyd at bedwar porth cysylltu trosiannol.

Bydd y pyrth cysylltu trosiannol ar y tir yn uwch na Phenllanw Cymedrig y Gorllanw ar dir amaeth i'r de o'r A547.

### Ffeithiau cyflym: generaduron tyrbinau gwynt

Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar y ddealltwriaeth gyfredol a gellir ei mireinio ar ôl i'r ymgynghoriad ddo i ben a chyn cyflwyno ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae'r niferoedd hyn yn seiliedig ar dybio y cynhyrchir 1.5GW o drydan.

- Nifer arfaethedig o eneraduron tyrbinau gwynt: **hyd at 107**
- Diamedr y rotor arfaethedig: **rhwng 250 a 280 metr**
- Uchder arfaethedig y generaduron tyrbinau gwynt i'r brig: **rhwng 293 a 324 metr** uwchlaw'r distyll astronomegol isaf
- Cliriad arfaethedig y rotor uwchlaw'r distyll astronomegol isaf: **34 metr**

### Ffeithiau cyflym: platfformau is-orsaf ar y môr

- Uchafswm arfaethedig nifer y platfformau is-orsaf ar y môr: **4**
- Lled mwyaf y rhan uchaf arfaethedig (mae'r rhan uchaf yn golygu'r prif strwythur ar ben y strwythur sylfaen, uwchlaw arwynebyr y môr): **60 metr**
- Hyd mwyaf y rhan uchaf arfaethedig: **80 metr**
- Pwnt uchaf y rhan uchaf arfaethedig (uwchlaw'r distyll astronomegol isaf), heb gynnwys y lanfa i hofrenyddion a'r deunydd amddiffyn rhag mellt: **70 metr**

## Ceblau ar y tir

Bydd Coridor Ceblau Ar y Tir Mona tua 18km o hyd a bydd y ceblau'n cael eu claddu o dan y ddaear. Ar ôl casglu'r holl adorth o'r ymgynghoriad, mae tim prosiect Mona bellach wedi dewis ein llwybr cebl sengl ar y tir a byddwn yn siarad â thirfeddianwyr dros y misoedd nesaf, fel y gallwn barhau i freinio ein coridor ceblau i un sydd tua 75m o led.

Mae'r map ar y [tab Is-orsaf ar y Tir](#) yn dangos y newidiadau hyn.

Bydd angen i led Coridor Ceblau Ar y Tir Mona ganiatáu i hyd at bedwar cylched cebl gael eu gosod, ond rydym yn disgwyl i'r lled hwn gael ei leihau mewn rhai manau cyn cyflwyno ein cais, yn dilyn arolygon ac astudiaethau pellach.

Ar ôl cwblhau a chomisïynu'r gwaith gosod ceblau, bydd y ffordd gludo dros dro yn cael ei thynnu a'r tir yn cael ei adfer gan ddefnyddio isbridd ac uwchbridd a oedd wedi'u cadw. Bydd yr holl gompowndiau adeiladu dros dro a ffensys dros dro yn cael eu tynnu, bydd trefniadau draenio a/neu ddyfrhau caeau yn cael eu hadfer a bydd y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol. Lle bo'n ymarferol, ystyrir adfer rhannau o goridor ceblau ar y tir Mona yn gynnar.

Bydd gwrychoedd yn cael eu hailblannu gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol lleol, lle bo hynny'n ymarferol. Defnyddir contractwyr cymwys a phrofiadol i wneud y gwaith adfer, a fydd yn golygu adfer y gwrych i gyfateb i'r gwrychoedd sy'n weddill ym mhob lleoliad. Lle bo'n briodol, efallai y bydd rhyfaint o welliannau (fel plannu rhywogaethau addas ychwanegol) yn cael eu gwneud.

## Is-orsaf ar y tir

Bydd angen compownd adeiladu ger is-orsaf ar y tir Mona. Bydd y compownd wedi'i leoli yn Ardal Ddatblygu Arfaethedig ar y Tir Mona a bydd yn cynnwys swyddfeydd, cyfleusterau lles, lle i storio offer a chyfarpar a manau parcio ar gyfer staff adeiladu.

Rhagwelir y bydd mynediad adeiladu i safle'r is-orsaf ar y tir yn defnyddio'r llwybr mynediad parhaol arfaethedig, er y gellir defnyddio arwynebyr dros dro yn ystod y cam adeiladu. Bydd angen gosod y llwybr mynediad hwn yn gynnar yn y broses adeiladu.

Mae is-strwythurau adeiladu'r is-orsaf ar y tir yn debygol o gynnwys deunyddiau cladid a dur. Bydd y gwaith dur strwythurol yn cael ei saernio a'i baratoi oddi ar y safle ac yn cael ei ddanfôn i'r safle i'w adeiladu.

Bydd Cynllun Rheoli Tirwedd, Ecoleg a Hydrolleg yn cael ei baratoi ar gyfer safle'r is-orsaf ar y tir a fydd yn nodi'r mesurau lliniaru ar gyfer sgrinio, cynefinoedd ecolegol a rheoli dŵr ffo wyneb. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am gydsyniad.

Cyn dechrau ein holl waith ar y tir, bydd nifer o arolygon ac astudiaethau cyn adeiladu yn cael eu cynnal i roi gwybodaeth i'r timau dylunio wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol, gan gynnwys:

- Gwaith archaeolegol cyn adeiladu
- Arolygon ecolegol cyn y cam adeiladu
- Ymchwiladau geodechnegol
- Astudiaethau draenio

## Gwaith pellach


Bydd yr holl waith adeiladu'n cael ei wneud yn unol â Chod Ymarfer Adeiladu. Bydd y Cod Ymarfer Adeiladu yn amlinellu'r mesurau rheoli pwysig y byddwn yn gofyn i'n holl gontractwyr eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith ar gyfer yr holl waith adeiladu perthnasol ar gyfer effennau ar y tir Prosiect Gwynt Alltraeth Mona.

Bydd y Cod Ymarfer Adeiladu yn cael ei ddatblygu drwy drafod â'n rhanddeiliaid. Bydd yn parhau i fod yn ddogfen ddrafft yn ystod ein hymgynghoriad, ein cam ymgysio a thrwy gydol y broses Archwilio, a bydd yn cael ei chwblhau pan fydd gennym ddyluniad manwl ar ôl cael cydsyniad.

## Cod Ymarfer Adeiladu

Byddwn ni nawr yn edrych ar opsiynau mynediad posibl ar gyfer adeiladu a gweithredu, yn ogystal â pharatoi strategaeth tirwedd a phlaniu i liniaru effeithiau gwleddol posibl ein his-orsaf ar y tir. Rydym ni hefyd yn parhau i freinio maint, cynllun ac uchder adeiladau'r is-orsaf ar y tir, i ymateb i'r adorth a gafwyd i'r ymgynghoriad.

Yn yr un modd, mae'r prosiect yn gweithio ar freinio ein cynigion manwl ar gyfer y llwybr ceblau ar y tir, yn cynnwys ein strategaeth mynediad ar gyfer cerbydau adeiladu, a lleoliad compowndiau adeiladu. Rydym ni hefyd yn penderfynu ar y ffordd mwyaf priodol i'r llwybr gresi i'w ffyrdd, cyfleustodau a derbynnyddion amgylcheddol, fel cyrsiau dŵr.



## Indicative project timeline

Our statutory consultation closed in June 2023, and we submitted our DCO application to the Secretary of State in February 2024.

### Indicative project timeline

- 2023**  
Statutory consultations
- 2024**  
Q1 2024 Applications submitted for Development Consent Order (DCO) and other licences.
- 2025**  
Expected decision on the DCO by the Secretary of State
- 2026/7**  
Expected Final Investment Decision (FID) and commencement of construction.
- 2028/29**  
Expected start - Commercial Operation Date (COD)

Report a bug



## Cefnogi'r economi leol, ranbarthol a chenedlaethol

Yn ogystal â chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, bydd ein cynigion ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn datgloi manteision economaidd sylweddol, o ran y swyddi y byddwn yn eu creu a'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a fydd ar gael i fusnesau ledled Cymru a'r DU gyfan.

Bydd y prosiect yn cefnogi'r economi leol, ranbarthol a chenedlaethol mewn nifer o ffyrdd:

- Cyfrannu at yr economi drwy fuddsoddi'n sylweddol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd cyflogaeth a seilwaith newydd yn ystod pob cam o'r prosiect.
- Parhau i gadw costau technoleg a datblygu i lawr er mwyn darparu ynni cost isel i ddefnyddwyr a darparu manteision cymunedol.

### Porthladdoedd a harbws

Rydym yn ymgysylltu â phorthladdoedd a harbws o amgylch Môr Iwerddon a allai gefnogi gweithgareddau adeiladu ac yna gweithredu a chynnal a chadw'r ffermydd gwynt yn y pen draw.

### Swyddi

Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau'n fanylach, bydd graddfa'r hwb economaidd hwn yn dod yn gliriach – ond mae ein gwaith modelu wedi dangos y byddwn yn creu ac yn cefnogi tua 3,420 o swyddi i gyd yn ystod camau gwahanol ein prosiect. Mae hyn yn torri i lawr i:

- 710 o swyddi yn ystod y gwaith cynllunio a dylunio, gan gynhyrchu cyflogau gwerth tua £19.7m bob blwyddyn\*
- 2,120 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynhyrchu cyflogau gwerth tua £74.8m bob blwyddyn\*
- 590 o swyddi yn ystod gweithrediadau, gan gynhyrchu cyflogau gwerth tua £27.6m bob blwyddyn\*

\*Ffynhonnell: Oxford Economics

### Cadwyn gyflenwi

Rydym yn gwybod bod prosiectau gwynt ar y môr yn dod â manteision sylweddol i'w cymunedau lleol ac rydym yn credu ei bod hi'n eithriadol o bwysig bod y gadwyn gyflenwi leol yn cyfrannu at y prosiect hwn hefyd. Rydym wedi lansio porth cyflenwyr pwrpasol lle gall cwmnïau lleol baru eu sgiliau ag anghenion y prosiectau. Mae'r porth yn galluogi cwmnïau o bob maint i gofrestru eu diddordeb ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn annog cyflenwyr yn y DU i gofrestru eu diddordeb yn [REDACTED] enwedig y rheini sydd â chysylltiadau ar draws Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.



## Pysgodfeydd masnachol, morgludiant a mordwyo

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o asesiadau yn ardal ein hastudiaeth i weld sut gallai safle ein fferm wynt arfaethedig effeithio ar bysgodfeydd masnachol, morgludiant a mordwyo.

Isod, rydym wedi rhoi trosolwg o ganlyniadau'r asesiadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth fanwl am yr holl asesiadau rydym wedi'u cynnal a'r canlyniadau dilynol ar gael ym mhennod 11 ein Hadroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol.

### Pysgodfeydd masnachol

Yn ystod cam gweithredu a chynnal a chadw Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, canfu ein hasesiadau amrywiaeth o effeithiau ar bysgodfeydd masnachol, gyda'r mwyafrif yn 'fach iawn' neu'n 'is' ac 'yn anarwyddocaol'.

Bydd y prosiect yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y rhanbarth sy'n ymwneud â physgodfeydd masnachol ac yn ystyried sut gall Prosiect Gwynt Alltraeth Mona leihau unrhyw effeithiau posibl ymhellach.

### Morgludiant a mordwyo

Datblygwyd gwaelodlin morgludiant a mordwyo drwy adolygu cyhoeddiadau perthnasol, casglu a dadansoddi data am draffig llongau a digwyddiadau'n ymwneud â llongau yn hanesyddol, ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol. Mae Prosiect Gwynt Alltraeth Mona wedi'i leoli mewn ardal sy'n cael ei defnyddio'n aml gan amrywiaeth o wahanol ddefnyddwyr morol.

Nodwyd rhai effeithiau posibl ar forgludiant a mordwyo, sy'n gysylltiedig â chamau adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw, a datgomisiynu Prosiect Gwynt Alltraeth Mona.

Mae'r effeithiau a aseswyd yn cynnwys: effeithiau ar lwybr llongau, effeithiau ar weithrediadau porthladd, effeithiau ar ddiogelwch mordwyo ac effeithiau ar ymateb i argyfwng. Gyda'r mesurau a fabwysiadwyd fel rhan o Brosiect Gwynt Alltraeth Mona (er enghraifft, llongau gwarchod) ar waith, mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau hyn yn arwain at effeithiau nad ydynt yn 'arwyddocaol' o ran cynllunio.

Pan fydd mwy o risgiau 'arwyddocaol' yn cael eu nodi, rydym wedi ymrwmo i archwilio dulliau rheoli risg ychwanegol drwy gyfrwng astudiaethau pellach ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer lleihau risgiau i 'mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol' (ALARP) cyn cyflwyno'r cais. Bydd mesurau rheoli risg priodol wedyn yn cael eu sicrhau drwy unrhyw ganiatâd a roddir i'r prosiect.



## Newidiadau arfaethedig

Derbyniwyd y cais ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, ddydd lau 21 Mawrth 2024, a dechreuodd y Prosiect ar ei gam Archwilio.

Drwy gydol y cam Archwilio rydym wedi parhau i freinio ein cynigion, ac mae hyn wedi arwain at yr angen am rai newidiadau bach a lleol mewn perthynas â mynediad priffyrdd.

Dyma'r newidiadau arfaethedig yn gwyno:

1. Diwygio Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys llwybr mynediad presennol a darn o dir i'r gorllewin o'r is-orsaf ar y tir ar gyfer mynediad adeiladu dros dro yn ystod gwaith paratoi safle ar y tir, ac adeiladu'r is-orsaf ar y tir a'r gwaith o'i hamgylch;
2. Diwygio a lledu ffordd fynediad ar gyfer gwaith adeiladu'r is-orsaf ar y tir i gynorthwyo symudiadau Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin, gan gynnwys newid Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig;
3. Diwygio Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys tir ychwanegol wrth ymyl ymagoriad mynediad adeiladu'r is-orsaf ar y tir i ddarparu ar gyfer basn arafu draenio'r safle adeiladu dros dro;
4. Diwygio ac ehangu Terfynau'r Gorchymyn arfaethedig i gynnwys darn o dir sydd ei angen i ddarparu ar gyfer ardal o lawr caled yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn gallu sefydlu'r ffordd fynediad barhaol.

Mae rhagor o fanylion am y newidiadau hyn ar gael yn y dogfennau [isod/dolen]

### Adroddiad ar Gais am Newid Mona

Cais am Newid: Cynlluniau o'r lleoliad

Cais am Newid: Cynllun Gwaith - Ar y Tir

Cais am Newid: Cynlluniau Tir

Cais am Newid: Cynllun gwaith stryd a mynediad i waith

Cais am Newid: Llyfr Gorchwyl

Cais am Newid: Datganiad cyllido

Cais am Newid: Datganiad o Resymau

Cais am Newid: Traciwr hawliau tir

Cais am Newid – Gorchymyn Cydsyniad Datblygu

Atodlen o Newidiadau i'r Cais am Newid: Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft

Cais am Newid: Cynllun Amlinellol ar gyfer Rheoli Traffig Adeiladu

Cais am Newid: Atodlen o Ddogfennau'r Cais

### Sut mae ymateb

Rydym yn croesawu sylwadau ar y newidiadau arfaethedig hyn fel rhan o ymgynghoriad sy'n rhedeg tan 5pm ddydd Mawrth 03 Rhagfyr 2024. Gallwch gyflwyno adborth drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Post: rhagbost MUNA

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben am 5pm ddydd Mawrth 03 Rhagfyr 2024 felly gwnech yn siŵr bod ymatebion yn cael eu cyflwyno ar y dyddiad hwn neu cyn hynny. Ac os ydych chi'n defnyddio'r opsiwn rhagbost, caniatwch amser i'ch ymateb gyrraedd.

Cliciwch yma er mwyn cael mynediad at ddogfennau yr ymgynghoriad yma.

Cliciwch yma



## Hyb gwybodaeth

Ar y dudalen hon gallwch weld a lawrlwytho detholiad o ddeunyddiau sy'n darparu mwy o wybodaeth am Brosiect Gwynt Alltraeth Mona.

Os bydd angen unrhyw un o'r deunyddiau hyn arnoch mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â thim y prosiect drwy e-bostio [\[redacted\]](#) neu ffonio [\[redacted\]](#).

Dogfennau technegol yw nifer o'r rhain, felly maent ar gael yn Saesneg yn unig. Gadewir y teitlau yn Saesneg isod er mwyn dynodi hynny. Lle bo dogfennau Cymraeg ar gael, rhoddir y teitl Cymraeg.

### Digwyddiad gweminar ar-lein

Gwylwch recordiad o'n digwyddiad ymgynghori ar-lein, a ddarlliedwyd ar 9 Mai 2023

[Gwylw recordiad](#)

### Cais am Newid

Cais am Newid [+](#)

### Archwiliad

Archwiliad [+](#)

### Derbyn

Derbyn [+](#)

### Deunyddiau datganiadau ôl-ymgyngori

Deunyddiau datganiadau ôl-ymgyngori [+](#)

### Deunyddiau'r ymgynghoriad statudol

Cynlluniau a Darluniau [+](#)

Gorchymyn Cydsyniad Datblygu [+](#)

Adroddiadau [+](#)

Cynlluniau Amlinellol [+](#)

PEIR Cyfrol 1: Penodau Rhagarweiniol [+](#)

PEIR Cyfrol 2: Penodau ar y môr [+](#)

PEIR Cyfrol 3: Penodau ar y tir [+](#)

PEIR Cyfrol 4: Penodau cyfunol ar y môr ac ar y tir [+](#)

PEIR Cyfrol 5: Atodiadau cyflwyno [+](#)

PEIR Cyfrol 6: Atodiadau ar y môr [+](#)

PEIR Cyfrol 7: Atodiadau ar y tir [+](#)

PEIR Cyfrol 8: Atodiadau cyfunol ar y môr ac ar y tir [+](#)

PEIR: Crynodeb Annhechnegol [+](#)

Deunyddiau ymgynghori statudol [+](#)

### Deunyddiau ymgynghori anstatudol


Deunyddiau ymgynghori anstatudol [+](#)







Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto ynghylch maint, nifer na lleoliad ein tyrbinau. Ond ar y cam cynnar hwn rydym ni wedi creu delweddau 3D dangosol i ddangos golygfeydd posibl o ffermydd gwynt Mona a Morgan o amrywiaeth o leoliadau ar y tir. Cliciwch ar y saethau i weld fideos sy'n dangos golygfeydd yn ystod y dydd a'r nos. Rydym yn dangos yr awyr mewn amodau cymylog gan mai hyn sy'n rhoi y cyferbyniad mwyaf clir gyda'r tyrbinau gwynt.




Mae ein cais am gydsyniad datblygu wedi cael ei dderbyn i gael ei archwilio. Cliciwch [yma](#) i weld dogfennau'r cais. Cliciwch [yma](#) i weld hysbysiad sy'n cyhoeddi dyddiadau ac amseroedd y gwrandawliadau archwilio.

Hafan



Cartref Offshore wind Fin cynigion Newidiadau arfaethedig Hyb gwybodaeth Delweddau **Cysylltu** English Cymraeg



## Cofrestrwch i gael diweddariadau

Cofrestrwch eich manylion gyda ni os hoffech gael gwybod am ein prosiect.

Enw

E-bost

Ffon

Cwmni/Sefydliad, lle bo hynny'n berthnasol (dewisol)


Ie  Na

Sefydliad

[AWAITING TRANSLATION]

Gynnydd y prosiect

[AWAITING TRANSLATION]

I'm not a robot  reCAPTCHA  
Privacy - Terms

I gyflwyno'r adborth hon, **rhaidd derbyn y defnydd o gwicis**.  
Mae hyn yn angenrheidiol i alluogi'r defnyddiwr i gwblhau ymateb dynol yn unig o reCAPTCHA.

Cyflwyno

### Cysylltu

You can contact the community relations team by:



Post: FREEPOST MONA

POWERED BY **Camargue**

Cedwir pob hawl © Hawffraint 2024

Polisi preifatwydd | Polisi cwicis

## APPENDIX A.6

List of targeted consultees

## Targeted consultee list

- Cadw
- Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog/Cefn Meiriadog Community Council
- Natural Resources Wales
- Natural Resources Wales - North Wales
- Heneb
- Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council
- Cyngor Dinas Llanelwy/St. Asaph City Council (Denbighshire)
- [REDACTED]
- Estate of late [REDACTED]
- [REDACTED]
- North Wales Fire and Rescue / Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- North Wales Police and Crime Commissioner
- Cyngor Cymuned Waen/Waen Community Council (Denbighshire)
- Cyngor Tref Rhuddlan/Rhuddlan Town Council (Denbighshire)
- Bodelwyddan Town Council
- North and Mid Wales Trunk Road Agency (on behalf of the Welsh Government)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council
- Afon Ganol (East and West)

## **APPENDIX A.7**

Covering letter to targeted consultees  
(Welsh and English)

Our Ref: 22000496\_185543



Mona Offshore Wind Limited  
Chertsey Road, Sunbury On Thames  
Middlesex, TW16 7BP  
United Kingdom

Company number: 13497266

15 Tachwedd 2024

**EN010137 – Fferm Wynt Alltraeth Mona**  
**Hysbysiad o'r newidiadau i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi, yn rhinwedd eich swydd fel ymgynghorai, am y newidiadau arfaethedig i Derfynau'r Gorchymyn ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Mona – cyfeirir at y rhain fel y Cais am Newid.

Drwy gydol yr Archwiliad rydym wedi parhau i fireinio ein cynigion, ac mae hyn wedi arwain at yr angen am rai newidiadau bach a lleol.

